| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 10fed Mawrth 2022 |
| **TEITL** | Diweddariad - Adolygiad Parcio |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Gareth W Griffith |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma yn nhermau rheolaeth cerbydau modur a phwerau ymdrin â modurwyr sydd yn parcio'n anghyfreithlon. |

**1. CEFNDIR**

1.1. Cynghorwyr oedd yn rhan o'r Grŵp Tasg Parcio:

**Cynghorwyr:** Angela Russell; Annwen Hughes; Kevin Morris Jones; Gethin Glyn Williams

**Swyddogion yn cefnogi'r Grŵp Tasg:** Dafydd Williams (Pennaeth Amgylchedd); Ceri Hughes Thomas (Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd); Gwenan Huws Tomos (Arweinydd Tîm Parcio).

1.2 Sefydlwyd y Grŵp uchod ym mis Gorffennaf 2019 i ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth parcio weithredol ac ystyried ei addasrwydd a pherthnasedd i anghenion y Cyngor ac anghenion y Cymunedau erbyn heddiw.

1.3 Roedd polisïau a gweithdrefnau parcio'r Cyngor wedi aros yr un fath fwy neu lai ers 2015 felly manteisiwyd ar y cyfle i argymell gwelliannau sydd yn cydweddu gyda'r sefyllfa economi leol ac uchafu'r defnydd o feddalwedd sydd bellach ar gael. Roedd adolygu'r trefniadau hefyd yn anorfod yn nhermau cynaliadwyedd ariannol o ran cyllidebau'r awdurdod er sicrhau bod ein trefniadau rheoli ymarferol yn effeithiol ac yn effeithlon.

1.4 Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Rhagfyr 2020 yn cynnig argymhellion priodol ar gyfer datrys mwyafrif o'r materion. Yn ddilynol i hwn, aeth adroddiad terfynol ger bron Aelodau'r Cabinet ym mis Chwefror 2021. Bu i Aelodau'r Cyngor gymeradwyo'r argymhellion isod;

- Mabwysiadu Strwythur Ffioedd Parcio Newydd
- Adolygu cynnig parcio yn ystod cyfnod y Nadolig
- Dim newidiadau i'r Cynllun Bathodyn Glas
- Dim newidiadau i'r Cynllun Parcio i Breswylwyr
- Cryfhau'r Tîm Gorfodaeth Parcio

1.5 Hoffai'r Awdur gadarnhau bod yr argymhellion sydd yn ddeillio o'r adolygiad bellach wedi'u gweithredu.

1.6 Cydnabuwyd fod llawer o newidiadau wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf sydd yn cael cryn ardrawiad ar ein cymunedau yng nghyd-destun Parcio. Adnabuwyd mai'r prif newidiadau yw mwy o gerbydau trydan, lleihad mewn defnydd o arian parod, digwyddiadau a gynhelir yn y Sir, cynnydd o ddefnydd tai a thai haf ar gyfer llety gwyliau a chynnydd mewn defnydd o gerbydau gwyliau. Mae Swyddogion o'r Adran wedi bod yn brysur yn rhoddi sylw i'r pynciau hyn.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Hoffai'r Awdur ddiweddaru'r darllenydd am ddau bwnc perthnasol, sef cartrefi modur a phwerau towio cerbydau i ffwrdd.

**CARTREFI MODUR**

2.2 Yng Ngwynedd mae pryderon wedi eu codi mewn nifer o gymunedau ar draws y sir, wrth i nifer gynyddol o berchnogion cartrefi modur benderfynu aros mewn lleoliadau ac ar dir 'cyhoeddus', lle nad oes hawl cyfreithlon i gysgu mewn cerbyd dros nos. Mae hyn yn batrwm hanesyddol ond yn un sydd wedi ei amlygu fwy ers cyfnod y pandemig gyda chyfyngiadau teithio dramor yn ysgogi hynny.

2.3 Er mwyn deall beth oedd y sefyllfa yng Ngwynedd go iawn, cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cynnal gwaith ymchwil ac mae'r gwaith yma wedi cynnwys ymgynghori gyda gweithredwyr safleoedd carafanau yng Ngwynedd, y sector cartrefi modur yn ogystal â chymunedau ar draws y Sir. Cwblhawyd y gwaith ymchwil llynedd ac mae'n cynnwys tystiolaeth sydd yn amlygu'r angen am fesurau ar gyfer rheoli'r sector cartrefi modur yn y Sir yn well. Adroddwyd y gwaith ymchwil i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2021 a penderfyniad y Cabinet oedd:

i. Awdurdodi'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Adran Economi a Chymuned i gynnal prosiect peilot ar gyfer defnydd o hyd at 6 o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, er darparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos ac i gynnwys dynodi'r lleoliadau, ond yn ddarostyngedig i sicrhau cyllid cyfalaf a'r caniatâdau angenrheidiol.
ii. Bod adroddiad pellach ar ganlyniadau'r peilot yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ymhen tair blynedd.
iii. Ystyried a gweithredu ar fesurau gorfodaeth i fynd law yn llaw gyda'r uchod.
iv. Cyflwyno'r gwaith ymchwil i Llywodraeth Cymru a gofyn iddynt Adolygu'r Ddeddf Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.

2.4 Mae Bwrdd Prosiect Cartrefi modur trawsadrannol wedi ei sefydlu erbyn hyn er mwyn gweithredu ar benderfyniad y Cabinet, gyda'r gwaith yn mynd rhagddo i adnabod safleoedd priodol ar gyfer y prosiect peilot, dylunio'r safleoedd o ran eu gosodiad ac unrhyw wasanaethau cysylltiedig ac yna cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Bydd ystyriaeth hefyd angen ei roi i faterion rheolaeth safle a chydymffurfiaeth. Yr amserlen ar hyn o bryd (yn ddibynnol ar ganiatâd cynllunio) yw i'r peilot cyntaf fod yn weithredol cyn diwedd Mawrth 2023. Yr amcan yw y bydd unrhyw fesurau gorfodaeth ychwanegol yn mynd law yn llaw gyda darpariaeth y safleoedd ar gyfer y cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos.

2.5 Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gydweithio gyda'r Parc Cenedlaethol o ran materion sydd yn ymwneud a'r sector cartrefi modur yn gyffredinol, gyda pharatoadau megis adnewyddu arwyddion a chynlluniau cyfathrebu ar y gweill ar gyfer tymor y gwanwyn.

**PWERAU TOWIO CERBYD I FFWRDD**

<u>Trosolwg o'r broblem</u>

2.6 Mae modurwyr sydd yn parcio'n anghyfreithlon a diystyriol drwy greu peryglon i ddefnyddwyr eraill yn broblem gyffredinol drwy Wynedd a thu hwnt.

2.7 Yn anffodus, mae sgil effaith Cofid 19 wedi uchafu'r problemau parcio ledled y Sir, oherwydd cynnydd sylweddol yn y nifer ymwelwyr a phrinder llecynnau parcio.

2.8 Profwyd problemau enfawr wrth i gannoedd o fodurwyr deithio i gyfeiriad Pen y Pass gyda'r bwriad i grwydro'r mynyddoedd, a phenderfynu parcio ar y brifffordd ar ôl sylweddoli bod y maes parcio'n orlawn.

2.9 Mae Pen y Pass yn cael ei lywodraethu gan gyfyngiadau parcio ar ffurf clirffordd. Fel y gwyddoch, mae'r ffordd dan sylw yn gul gyda llif traffig trwm yn ddyddiol, gan gynnwys beicwyr a gwasanaeth bws lleol sydd yn ei defnyddio'n aml. Roedd cerbydau yn parcio'n anghyfreithlon ac yn creu risg sylweddol i gerddwyr yn ogystal oherwydd y rheidrwydd iddynt gerdded ar hyd y brifffordd.

<u>Ffordd Ymlaen</u>

2.10 Mae parcio anghyfreithlon yn hynod broblemus ac er gwaethaf ymdrechion Swyddogion Gorfodaeth Parcio'r Cyngor i ddirwyo'r modurwyr, nid oedd yr ymdrech hyn yn gwaredu o'r peryglon yn syth bin yn anffodus.

2.11 Mae rhai o'r modurwyr hyd ên oed yn croesawu'r ddirwy ac yn credu fod £35 yn rhesymol am ddiwrnod allan mewn lleoliad mor hardd. Wrth gwrs, mae hyn yn hollol annerbyniol.

2.12 Mae'r Cyngor wedi cydweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn cymryd camau priodol i daclo'r broblem ym Mhen y Pass ac ar hyd y A4086 drwy rannu adnoddau i fonitro'n agos a defnyddio pwerau'r Heddlu i dowio cerbydau i ffwrdd. Drwy gyhoeddusrwydd cadarn, monitro rheolaidd a gweithredu'n ddi-lol, daeth y broblem o dan reolaeth.

2.13 Mae cyhoeddusrwydd cadarn a monitro rheolaidd wedi profi'n ddulliau llwyddiannus ac er bod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol, credwn ei bod yn gynamserol i feddwl fod y broblem wedi diflannu'n gyfan gwbl.

2.14 Mae parodrwydd Heddlu Gogledd Cymru i gynorthwyo'r Cyngor gyda thowio i ffwrdd wedi bod yn amhrisiadwy, er hyn, daeth i'r amlwg nad oedd hi'n ymarferol bosibl i'r trefniadau barhau hir dymor oherwydd prinder Swyddogion yr Heddlu ar benwythnosau a'r angen i ymdrin â blaenoriaethau eraill.

2.15 Yr oedd felly yn amserol i'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau priodol ein hunain er mwyn ymdrin â cherbydau sydd yn parcio'n anghyfreithlon ac achosi rhwystr neu beryglon i ddefnyddwyr eraill o'r brifffordd, heb orfod dibynnu ar adnoddau'r gwasanaethau brys. Cafodd y pwerau hyn eu cymeradwyo ym mis Medi 2021.

<u>Mesurau Ychwanegol</u>

2.16 Yr oedd mabwysiadu'r pwerau sicr yn gam synhwyrol. Er hyn, hoffai'r Awdur bwysleisio mai o dan amgylchiadau eithafol, ble mae risg neu berygl uniongyrchol i aelodau'r cyhoedd, caiff y pwerau hyn eu defnyddio'n unig.

2.17 Bwriedir gosod arwyddion ychwanegol yn y lleoliadau fwyaf problemus ar gyfer amlygu'r neges *'Ni Chaniateir Parcio – Parth towio i ffwrdd'* yn hollol glir i fodurwyr. Yn ychwanegol, sicrhawn fod digonedd o gyhoeddusrwydd am y mater.

2.18 Yr ydym yn wir obeithiol na fydd angen defnyddio llawer ar y pwerau, os o gwbl. Petai'r angen yn codi, caiff costau sydd yn gysylltiedig â chasglu a chadw'r cerbydau mewn compownd diogel gan gwmni Gwalia ei drosglwyddo i'r perchnogion.